# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 31 GORFFENNAF 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Aulay Mackenzie (Prifysgol Glyndŵr), Garry Reid (Prifysgol Bangor) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Steve Bayley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Nia Medi Williams (Swyddog Gweithrediadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Llongyfarchwyd Nia Medi Williams ar ei phenodiad fel Swyddog Gweithrediadau o fewn y Swyddfa Rhaglen.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Yana Williams (Coleg Cambria), Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn) ac Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2020 fel rhai cywir.

## 5. RHEOLI RISG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r Fframwaith Rheoli Risg sydd ynghlwm i'r adroddiad ac fel yr amlinellir yn Atodiad 1, gan ofyn i'r Swyddfa Rhaglen addasu y fformat yn unol â'r pwyntiau a nodwyd yn y drafodaeth a datblygu Strategaeth Rheoli Risg yn unol â'r egwyddorion yn y fframwaith fel rhan o'r pecyn terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.**

**(b) Nodi y bydd adroddiad yn adolygu cynnwys y gofrestr risg yn unol â'r fframwaith newydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Swyddfa Rhaglen osod trefniadau rheoli risg effeithiol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn diweddaru Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar drefniadau rheoli risg er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Eglurwyd bod hwn yn adroddiad ar y Fframwaith Rheoli, ac nid ar y risgiau eu hunain, ac y byddai'r risgiau yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd mai'r ddau risg mwyaf oedd capasiti a chefnogaeth y sector preifat, a hynny oherwydd effeithiau Cofid-19.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod y Fframwaith Rheoli Risg i'w ganmol, ond awgrymwyd ychwanegu'r canlynol at y templed:-

- Colofn tueddiad risg (gwell, gwaeth neu statig);
- Colofn yn nodi pa mor sydyn y bydd risgiau na liniarwyd yn cael adrawiad (yn syth, yn y tymor byr neu'r tymor canolig).
- Ail golofn goleuadau traffig yn dangos lefel y risg yn sgil gweithredu camau i wella'r sefyllfa.

Mewn ymateb, nodwyd y bwriedid gweithio ar dempled diwygiedig fyddai'n cynnwys sgorau a thueddiadau risgiau a liniarwyd, gan hefyd ymgorffori'r awgrymiadau uchod.

Nodwyd nad oedd Atodiad 2 yn gwneud unrhyw gyfeiriad at newid cyfeiriad y Llywodraeth. Mewn ymateb, nodwyd mai'r fframwaith yn unig oedd dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn, ac y byddai'r gofrestr risg yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd â'r fframwaith gyda'r sylwadau a nodwyd, gan dderbyn y bydd yna adroddiad ar y sefyllfa risg i'r cyfarfod nesaf.

**6. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan G.D.Evans, Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo yr amserlen.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cytundeb y bartneriaeth yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 cynhwysfawr ("GA2"). Adroddwyd i'r cyfarfod blaenorol ar y materion yma. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r amserlen ar gyfer y gwaith.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno Cynllun GA2 wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ac yn adrodd ar ddeilliannau'r Gweithdy Llywodraethu.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol, yr amserlen, goblygiadau cyfreithiol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Nodwyd y bwriedid adrodd ar fodelau arfaethedig a dogfennaeth derfynol i bwyllgorau craffu yn ystod ail hanner mis Hydref; i'r Cabinet yn ystod ail hanner mis Tachwedd ac i gyfarfodydd Cyngor o fewn hanner cyntaf Rhagfyr.

Eglurwyd fod gwaith penodol i'w gwblhau o amgylch sefydlu ymrwymiadau ariannol y partneriaid ar gyfer y cytundeb GA2 a'r Cynllun Twf yn benodol. Roedd hyn yn allweddol o ran symud ymlaen i gael argymhellion i'r cynghorau eu mabwysiadu yn unol â'r amserlen. Bwriedid cynnal gweithdy swyddogion ym mis Awst, fyddai'n cynnwys swyddogion y Grŵp Gweithredol, ynghyd â Chyfarwyddwyr Cyllid y partneriaid o'r cynghorau a'r colegau i ddechrau cyrraedd safbwynt ar broffilio gwariant y prosiectau a'r fframwaith ariannol yn GA2. Yn dilyn hynny, byddai angen cynnal y gweithdy a nodwyd yn y rhaglen waith i gynrychiolwyr ac aelodau'r Bwrdd Uchelgais i drafod canlyniad y gweithdy swyddogion ac i ddod i safbwynt ar y ffordd ymlaen, ond hynny ym mis Medi. Pwysleisiwyd bod yna falans i'w daro rhwng yr awch i symud yn gynnar gyda'r prosiectau, ac effaith cost hynny o ran llif arian. Nodwyd y comisiynwyd gwaith arbenigol dros y pythefnos nesaf fyddai'n dod â gwybodaeth gerbron y gweithdy swyddogion, gyda ffrwyth hynny'n cael ei gyflwyno i'r gweithdy aelodau yn ei dro.

Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod yr Arweinyddion yn rhan o'r gweithdai i'w cynnal gydag aelodau'r cynghorau i gefnogi'r Cynllun.

## 7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – YMGYSYLLTU Â'R SECTOR PREIFAT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi statws y perthnasau a'r sianeli ymgysylltu cyfredol gyda'r Sector Preifat.**

**(b) Nodi bwriad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu'n ôl fel partner i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.**

**(c) Nodi Cylch Gorchwyl drafft a gyflwynir gan Gadeirydd dros dro'r Grŵp Cyflawni Busnes a gofyn am adroddiad pellach gan y Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya, ar y diwygiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Grŵp Cyflawni Busnes a fabwysiedir gan y Bwrdd Uchelgais.**

**(ch) Cadarnhau'r camau a'r gweithredoedd nesaf arfaethedig i wella ymgysylltu a dealltwriaeth y sector preifat.**

**(d) Gohebu â Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i weld oes modd i Lywodraeth Cymru wneud cyfraniad i gefnogi Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, a chyflwyno adroddiad llawer mwy manwl ynglŷn â threfniadaeth ymgysylltu â'r sector preifat i'r cyfarfod nesaf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen penderfyniad er mwyn galluogi i'r Swyddfa Rhaglen fuddsoddi mewn dylunio a chyflawni mecanweithiau ar gyfer gwella ymgysylltu gyda'r sector preifat yn y Gogledd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn:-

- Cyflwyno trosolwg o'r berthynas a'r sianeli ymgysylltu cyfredol rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r sector preifat yn y Gogledd (Atodiad 1).
- Cyflwyno diweddariad i'r aelodau ar statws Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy fel partner i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Atodiad 2).
- Cyflwyno Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig a gyflwynwyd i'r ystyried gan Gadeirydd dros dro'r Grŵp Cyflawni Busnes (Atodiad 3).
- Cynnig y camau nesaf a'r dull o gryfhau perthynas, ymgysylltiad ac ymglymiad y sector preifat yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru (Atodiad 4).

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol, goblygiadau cyfreithiol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Cyfeiriwyd at benderfyniad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu'n ôl o'r Bwrdd Uchelgais, a rhannwyd llythyr ymddiswyddo'r Cyngor Busnes yn ei gyfanrwydd gyda'r aelodau. Diolchwyd yn arbennig i Ashley Rogers am ei gyfraniad dros y blynyddoedd i waith y Bwrdd wrth ddatblygu prosiectau a symud yr holl gynllun yn ei flaen. Nodwyd y cydnabyddid, yn yr hinsawdd sydd ohoni, bod rhaid i brif ffocws y Cyngor Busnes fod ar y busnesau maent yn eu cynrychioli. Fodd bynnag, er bod y sefyllfa'n un drist, gallai hyn agor y drws i'r Bwrdd ail-edrych ac atgyfnerthu ei berthynas â'r sector preifat drwy greu rhywbeth newydd ac arloesol, fyddai'n cynnig cyfraniad sylweddol gan y sector preifat eto. Ychwanegwyd y bydd y sector preifat yng Ngogledd Cymru yn gefnogol i amcanion y Cynllun Twf, a chroesawyd y ffaith bod yna rywbeth cadarnhaol yn dod allan o sefyllfa ddigon anodd.

Nodwyd ymhellach y cynhaliwyd cyfarfod eisoes gydag Ashley Rogers a Jim Jones o'r Cyngor Busnes i drafod eu syniadau ar gyfer cydweithio gyda'r Bwrdd yn y dyfodol. Nodwyd eu bod yn fudd-ddeiliaid gyda chyfraniad i'w wneud, a bod rhai syniadau da iawn wedi'u crybwyll eisoes.

Nodwyd, yn dilyn y penderfyniad i ail-edrych ar rôl y Grŵp Cyflawni Busnes, y bu i Gadeirydd y Bwrdd fynychu cyfarfod y Grŵp i egluro'r rhesymeg y tu cefn i'r penderfyniad. Cafwyd cryn gefnogaeth yn y cyfarfod ac roedd ymateb y Grŵp wedi bod yn gadarnhaol iawn. Bu'r Cadeirydd hefyd yn dyst i'r ffaith fod y Grŵp yn holi cwestiynau caled a threiddgar iawn ar y gwahanol brosiectau, oedd yn profi bod ganddynt rôl bwysig iawn i fynd i waelod rhai o'r prosiectau a sicrhau eu bod yn realistig.

Nodwyd, wrth symud ymlaen, bod angen ystyried rhai o'r syniadau arloesol a chyffrous a gyflwynwyd gan y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Cyngor Busnes, a gweld sut y gellir cyfuno hynny, gan gyflwyno adroddiad llawer mwy manwl ynglŷn â threfniadaeth ymgysylltu â'r sector preifat i'r cyfarfod nesaf.

Gan gyfeirio at y penderfyniad i drosglwyddo ysgrifenyddiaeth y Grŵp Cyflawni Busnes i'r Swyddfa Rhaglen, diolchwyd i Gerry Beer, Prifysgol Glyndŵr am gyflawni'r rôl hyd yma.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mynegwyd siomedigaeth bod y Cyngor Busnes wedi tynnu nôl o'r Bwrdd Uchelgais, ond croesawyd y ffaith bod camau ar droed i wella'r ymgysylltu gyda'r sector preifat yn ei gyfanrwydd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymgysylltiad y sector preifat â chynlluniau twf eraill, nodwyd bod nifer o gynlluniau flynyddoedd o flaen Cynllun Twf Gogledd Cymru, a chyda mwy o brofiad o ran sut i greu perthynas gref gyda'r sector. Roedd yn rhaid cydnabod bod Gogledd Cymru yn wahanol i ranbarthau eraill, ac roedd yn

bwysig canolbwyntio ar gydweithio gyda'r sector i greu'r dull gweithredu gorau ar gyfer Gogledd Cymru, gan gymryd ymlaen rai o'r gwersi o lefydd eraill. Nid oedd neb wedi canfod dull gweithredu perffaith eto, ac roedd pob rhanbarth wedi wynebu sialensau.

- Nodwyd bod llythyr y Cyngor Busnes yn sôn am ddiffyg refeniw, a holwyd a ddylid edrych ar ffynonellau ariannu ar gyfer hynny.
- Nodwyd y byddai colli'r Cyngor Busnes yn drychineb, ac yn gyrru neges anghywir allan, a bod y Bwrdd fwy o angen yr arbenigedd nag erioed. I'r diben hynny, awgrymwyd y dylai'r Bwrdd gytuno mewn egwyddor yn y cyfarfod hwn i gyllido'r Cyngor Busnes ai peidio. Mewn ymateb, nodwyd, er bod y sefyllfa'n un drist, bod yna gwestiwn yn codi ynglŷn â phriodoldeb a chwestiwn difrifol ynglŷn â gwneud taliad i aelod o'r Bwrdd am eu cynrychiolaeth. Roedd yr holl bartneriaid a'r Cyngor Busnes yn cyfrannu'n ariannol a / neu drwy amser swyddogion. Cynghorwyd y Bwrdd ynglŷn â'r materion priodoldeb, gan nodi na ellid gwneud cynigion o'r fath heb adroddiad ffurfiol ac arweiniad ar yr agweddau yma.
- Awgrymwyd gofyn i Lywodraeth Cymru oedd modd iddynt ddarparu cymorth grant tuag at gynaladwyedd ariannol y Cyngor Busnes (nid eu talu i fod yn aelodau o'r Bwrdd).
- Nododd Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) fod yna rai materion technegol yn codi o ran y Cylch Gorchwyl Drafft, ac y byddai'n eu hanfon ymlaen i sylw Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod cynnwys yr eitem yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a masnachol sensitif am y prosiectau. Mae hyn yn berthnasol i sefyllfa y cynghorau, ond yn benodol y partïon sydd yn ceisio, neu yn bartneriaid ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglenni Cynllun Twf.**

## 9. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad adolygiad gwaelodlin a'r cyflwyniad a wnaed yn y cyfarfod, a pharhau i ddatblygu prosiectau er mwyn cynorthwyo i sicrhau'r Cytundeb Twf Terfynol ar y cyfle cyntaf bosib'.**

**(b) Cadarnhau ailenwi'r 'Rhaglen Diwydiannau'r Tir a Thwristiaeth' yn Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth.**

**(c) Cadarnhau ailenwi'r 'Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch' yn Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Diweddaru Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar sefyllfa pob rhaglen a phrosiect fel rhan o'r broses o gyrraedd Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i ailenwi dwy o'r rhaglenni fel eu bod yn adlewyrchu eu cylch gorchwyl perthnasol yn fwy cywir.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.55 y.h.

**CADEIRYDD**